

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Y Llywydd,
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

10 Mai 2024

Amserlen ar gyfer craffu ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 4) ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2)

Annwyl Lywydd,

Ysgrifennaf atoch mewn perthynas â'r amserlen ar gyfer craffu ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 4) ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (Rhif 2)

Mae arnaf ofn bod byrder yr amserlen yn golygu na all y Pwyllgor adolygu'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn erbyn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad, sef 13 Mai 2024. Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor wedi cyhoeddi dau adroddiad ar y tri Memoranda cyntaf, ond rwy'n ofni nad ydym wedi gallu amserlennu ar gyfer Memorandwm Rhif 4.

O ystyried y goblygiadau difrifol sy'n deillio o'r Bil, fel yr amlinellwyd mewn gohebiaeth flaenorol â chi ynghylch Bil Protocol Gogledd Iwerddon, mae'n hanfodol cael amserlen ar gyfer cyflwyno adroddiad sy'n caniatáu ystyriaeth lawn o'r materion yn gyffredinol. Yn fwy felly, o ystyried rhybudd yr Ysgrifennydd Cabinet yn y pedwerydd memorandwm yn ymwneud â Phenderfyniad y DU ar Ddigonolrwydd yr UE, a allai arwain at broblemau i gysylltiadau rhwng y DU a'r UE. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Pwyllgor Busnes ofyn i Lywodraeth Cymru ystyried caniatáu cymaint o amser â phosibl ar gyfer ystyried memoranda cydsyniad deddfwriaethol yn y dyfodol.

Yn gywir,

Elin Jones



Delyth Jewell AS
Cadeirydd y Pwyllgor

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.